

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cilfan rhwng Dolgellau a Dinas
Mawddwy, Gwynedd) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2019

The A470 Trunk Road (Layby
between Dolgellau and Dinas
Mawddwy, Gwynedd) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists
and Pedestrians) Order 2019

Gwnaed 22 Chwefror 2019

Made 22 February 2019

Yn dod i rym 28 Chwefror 2019

Coming into force 28 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 28 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Layby between Dolgellau and Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 28 February 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 28 Chwefror 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r gilfan ar gefnffordd yr A470 o’r Amwythig i Ddolgellau ym Mhont Buarth Glas rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy yn Sir Gwynedd.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd gwaith esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Chwefror 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the layby on the A470 Shrewsbury to Dolgellau trunk road at Pont Buarth Glas between Dolgellau and Dinas Mawddwy in the County of Gwynedd;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on the 28 February 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted works vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 shall apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

22 February 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(CILFAN RHWNG DOLGELLAU A DINAS
MAWDDWY, GWYNEDD) (GWAHARDD
CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd i mewn i'r gilfan ym Mhont Buarth Glas rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy, Gwynedd.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym o 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2019 hyd 23:59 o'r gloch ar 16 Ebrill 2019, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (LAYBY BETWEEN
DOLGELLAU AND DINAS MAWDDWY,
GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk Road, between Dolgellau and Dinas Mawddwy, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used for the works), cyclists and pedestrians from entering the layby at Pont Buarth Glas between Dolgellau and Dinas Mawddwy, Gwynedd.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will be in force from 00:01 hours on 28 February 2019 until 23:59 hours on 16 April 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government